# SL(6)676 – Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Terfyn Credyd Cyfrif Allyriadau Net Cymru) (Cymru) 2025

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhan o gyfres o Reoliadau y cyfeirir atynt ar y cyd fel Rheoliadau Newid Hinsawdd (Cymru) 2025, sydd hefyd yn cynnwys Rheoliadau Newid Hinsawdd (Cyllideb Garbon) (Cymru) 2025 (sy'n gosod cyllideb garbon, a elwir yn Gyllideb Garbon 4, ar gyfer 2031-2035) a Rheoliadau Cyfrifyddu Carbon (Cymru) (Diwygio) 2025 (sy'n diwygio'r diffiniad o uned garbon).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod terfyn ar swm yr unedau carbon y caniateir eu credydu i gyfrif allyriadau net Cymru, yn unol ag adran 33(4) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ("Deddf 2016").

Mae Rheoliad 3 yn gosod terfyn ar swm yr unedau carbon y caniateir eu credydu i gyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer cyfnod cyllidebol 2026-2030 i 0% o'r gyllideb garbon.

Cyn gosod y Rheoliadau drafft, cafodd Gweinidogion Cymru gyngor y Pwyllgor Newid Hinsawdd, ac ystyried y cyngor, yn unol ag adran 49(1) o Ddeddf 2016.

## Y weithdrefn

Cadarnhaol Drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn rheoliad 2, defnyddiwyd y term "y Ddeddf" sydd wedi'i ddiffinio yn rhaglith y Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl diffinio term yn y rhaglith ar gyfer y darpariaethau gweithredol yng nghorff y Rheoliadau – gweler *Drafftio Deddfau i Gymru*, paragraff 4.14(5). Felly, dylid ailadrodd teitl Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn llawn yn rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**19 Tachwedd 2025**